

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Diwygiwyd Medi 2007



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

AMGUEDDFA CYMRU

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd
o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Diwygiwyd Medi 2007

**Dylid darllen y Cynllun hwn ar y cyd â Pholisi Cyfleoedd Cyfartal a
Pholisi Cynladwyedd Amgueddfa Cymru.**

RHAGARWEINIAD

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Dyma ein cynllun.

Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair 'cyhoedd' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 y Ddeddf. Daeth yn weithredol ar 27 Medi 2007.

CYFLWYNIAD

Disgrifiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gweledigaeth strategol ar gyfer ei chyfnod cyfredol o bedair blynedd yn *Cymru: Gwlad Well*. Nododd pedwar prif ganlyniad blaenoriaeth yn hyn o beth:

- helpu mwy o bobl i gael swyddi
- gwella iechyd a lles pobl
- datblygu cymunedau cryf a diogel
- creu gwell swyddi a gwella sgiliau.

Yn ôl Siarter Amgueddfa Cymru (1907, diwygiwyd 1991), y rheswm sylfaenol dros fodolaeth yr Amgueddfa yw 'datblygu addysg y cyhoedd'. Ein pwrpas yw gofalu am ein casgliadau, eu hastudio a hybu mynediad iddynt er budd y gymdeithas, a hynny am byth.

Fel y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am gadw a gwarchod trysorau'r genedl, rydyn ni wedi ymrwymo i ofalu am hunaniaeth ac amrywiaeth diwylliannol Cymru. Mae ein harddangosfeydd a'r casgliadau sydd ynddynt yn estyn cyfleoedd i ni hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am dreftadaeth Cymru – ei hanes, ei diwylliant, ei natur, ei hamrywiaeth a'i hiaith.

Y dyhead mwyaf perthnasol i Amgueddfa Cymru a amlinellwyd yn *Cymru: Gwlad Well* felly yw 'cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog'. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi tair strategaeth sy'n amlinellu ei pholisïau yn y meysydd hyn sef: *Cymru Greadigol, Iaith Pawb a Dysgu Byw'n Wahanol*.

'Datblygu addysg y cyhoedd' yw ein prif rôl fel gwasanaeth cyhoeddus, ac o'r herwydd, rydyn ni wedi gosod ein hymrwymiad i brif-ffrydio'r Gymraeg wth galon ein Cynllun Iaith.

Byddwn ni'n adeiladu ar ein llwyddiant ac yn dangos ein cefnogaeth gref i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dyfodol Dwyieithog*.

Bydd gweithredu ein Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu yn ategu ymrwymiad yr Amgueddfa i fod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn Gymraeg a Saesneg.

Rydyn ni wedi cynnal adolygiad trylwyr o'n Cynllun Iaith a'n Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu er mwyn adlewyrchu dyheadau *Iaith Pawb*, a disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth baratoi ein Strategaethau Prif-ffrydio.

AMGUEDDFA CYMRU

Mae Amgueddfa Cymru'n bodoli er mwyn hybu ymwybyddiaeth ehangach a gwell dealltwriaeth o Gymru, ei hanes, ei diwylliant a'i lle yn y byd, trwy ei gwybodaeth a'i chasgliadau amlddisgyblaeth sydd â chwmpas a phwysigrwydd rhyngwladol.

Sefydliad annibynnol yw Amgueddfa Cymru. Fe'i sefydlwyd trwy Siarter Brenhinol ac fe'i hariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Datganiad o Genhadaeth uchod yn diffinio ein pwrpas a'n hamcanion.

Ar hyn o bryd, mae gan Amgueddfa Cymru wyth safle sy'n agored i'r cyhoedd:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion
Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
Canolfan Gasgliadau Cymru, Nantgarw

Mae Amgueddfa Cymru'n croesawu rhyw 1.5m o ymwelwyr y flwyddyn o Gymru, Prydain a'r byd i gyd. Trwy ein casgliadau a'r ffordd yr ydym yn eu dehongli, rydyn ni'n ceisio codi ac ehangu ymwybyddiaeth yr ymwelwyr hynny o Gymru, gan gynnwys ein hiaith a holl gyfoeth ein treftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r Amgueddfa'n ganolfan rhagoriaeth academiaidd mewn nifer o wahanol feysydd. Rydyn ni'n derbyn ymholiadau gan y cyhoedd a chan nifer o sefydliadau eraill. Trwy ein gwasanaethau dysgu, rydyn ni'n ceisio rhannu'r wybodaeth yma â myfyrwyr o bob oedran.

Mae'r Amgueddfa'n cyflogi dros 650 o staff ar hyd a lled Cymru o dan adain ei Chyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'n atebol i Fwrdd o Ymddiriedolwyr o dan Siarter Brenhinol.

Cyfeiriad gwefan yr Amgueddfa yw: www.amgueddfacymru.ac.uk.

CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

Polisiau a mentrau

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa, ei Chyfarwyddwr Cyffredinol a'r staff uwch sy'n ymwneud â llunio polisiau ac sy'n ymwybodol o gyfrifoldebau Amgueddfa Cymru o dan y Ddeddf.

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd ar ei gwaith ac ym mhopeth y mae'n ei gwneud, gyda'r nod o sicrhau ein bod ni'n manteisio ar bob cyfle i

- hybu a chefnogi'r Gymraeg
- cyfrannu at y weledigaeth o greu Cymru ddwyieithog
- cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Os byddwn ni'n datblygu polisiau neu fentrau yn y dyfodol, byddant yn gyson â'r cynllun hwn.

Darparu gwasanaethau

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i sicrhau y gall ymwelwyr â'n holl safleoedd fwynhau'r casgliadau llawn cystal â'i gilydd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, byddwn ni'n arddangos testunau dehongli ac ati yn Gymraeg a Saesneg, a chaiff ymwelwyr sy'n cyflwyno ymholiadau wyneb yn wyneb neu trwy dulliau eraill, wneud hynny yn y naill iaith neu'r llall, lle bo hynny'n rhesymol bosibl. Mae dosbarthiad daearyddol yr amgueddfeydd yn golygu bod cyd-destun ieithyddol yr amgueddfeydd yn amrywio'n helaeth – o ardal Caerllion yn y de-ddwyrain lle nad oes fawr o Gymraeg, i Lanberis yn y gogledd lle mae cyfran uchel o'r gymuned yn Gymry Cymraeg rhugl. Nod ein Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu yw sicrhau bod yr un lefel o wasanaeth ar gael i ymwelwyr a phobl eraill yn ein dwy iaith swyddogol - Cymraeg a Saesneg.

Disgrifir y dulliau y mae Amgueddfa Cymru'n bwriadu eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaeth hwn isod.

Safon ein gwasanaeth Cymraeg

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i

- sicrhau ei bod yn cyflwyno gwasanaethau o safon gyson uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gadw egwyddorion Siarter y Dinesydd, ei Datganiad Siarter a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mewn cof

- pennu safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ac ymdrin â'r cyhoedd yn Gymraeg, a gaiff eu hysbysebu a'u monitro'n gyson. Caiff y safonau hyn a'u gweithrediad eu monitro.

Byddwn ni'n cyfeirio at yr ymrwymiad i gynnig gwasanaeth o safon gyson uchel yn Gymraeg a Saesneg - yn ein holl amgueddfeydd - ac yn ei hategu yn holl ddogfennau polisi allweddol Amgueddfa Cymru, fel yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Corfforaethol.

Ein swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni ar ein rhan gan drydydd parti

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu gosod allan ar gontract, trwyddedau a mathau eraill o ganiatâd.

Safonau ansawdd

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

Dyfarnu grantiau a benthyciadau

Pan fyddwn ni'n dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru, byddwn ni'n cynnwys telerau o ran defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn ni'n ystyried dogfen canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn Ymwneud â'r Gymraeg*.

YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Ymdrin ag ymwelwyr

Er mwyn adeiladu ar ein llwyddiant a dangos ein cefnogaeth gadarn i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Greu Cymru Ddwylieithog*, mae Amgueddfa Cymru'n prif-frydio'r Gymraeg. Canolbwynt ein gwaith prif-frydio yw'r Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu.

O dan ein Cynllun Iaith, rydyn ni'n gwneud pob ymdrech i recriwtio staff dwyieithog i adlewyrchu anghenion a gofynion ein hymwelwyr. Mae Amgueddfa Cymru'n cynnig cwrs cyflwyno i'w holl staff sy'n cynnwys cyfeiriad

at ddefnydd priodol o'r Gymraeg ac sut i ymateb i ymholiadau gan siaradwyr Cymraeg dros y ffôn, trwy e-bost ac wyneb yn wyneb.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu yn adeiladu ymhellach ar ymrwymiad yr Amgueddfa i fod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer gwasanaethau ymarferol wyneb yn wyneb yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Caiff ymweliadau a chyfarfodydd sy'n cael eu trefnu neu eu bwcio ymlaen llaw – er enghraifft, gan ysgolion neu grwpiau eraill – eu cynllunio fel bod y gwasanaeth ar gael yn y ddwy iaith, heblaw mewn achosion pan fo natur yr ymholiad yn benodol iawn a'r ymateb yn dibynnu ar arbenigedd aelod unigol o staff.

Caiff canllawiau ar sut i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg a chysylltiadau eraill â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg eu dosbarthu i'r holl staff. Caiff perthnasedd y Cynllun i staff ar lefel unigol ei gyflwyno i'r holl staff newydd ar y cwrs cyflwyno a byddwn ni'n cadw crynodeb o'r cynllun ar y Fewnrwyd.

Gohebiaeth

Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn ni'n paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amserau targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg.

Pan fyddwn ni'n dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg a Saesneg oni bai ein bod ni'n gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.

Pan fyddwn ni'n anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyron at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn Gymraeg a Saesneg oni bai ein bod ni'n gwybod y byddai'n well gan bob derbynnydd ei chael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.

Os bydd angen cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Caiff deunydd sy'n cael ei amgáu gyda llythyrau dwyieithog ei anfon yn Gymraeg a Saesneg, pan fydd ar gael.

Caiff deunydd sy'n cael ei amgáu gyda llythyrau Cymraeg ei anfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fydd ar gael.

Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth trwy e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

Caiff pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg a anfonir ei lofnodi.

Byddwn ni'n defnyddio system sgorio, y bydd y Bwrdd yn cytuno arni, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyron na fydd angen eu cyhoeddi'n Gymraeg, neu yn Gymraeg a Saesneg (er enghraifft, pan fydd yr ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

Gohebu dros y ffôn

Ein harfer safonol fydd sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.

Bydd staff ein switsfwrdd yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn.

Bydd ein prif switsfwrdd yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb.

Byddwn ni'n annog gweddill ein staff i roi cyfarchiad Cymraeg a Saesneg wrth ateb y ffôn ac i ddefnyddio negeseuon Cymraeg a Saesneg ar eu peiriannau ateb personol.

Os bydd y galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.

Os bydd y galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n cymryd yr alwad wneud hynny, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.

Os na fydd siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, naill ai i aros i siaradwr Cymraeg ffonio nôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu drwy e-bost.

Byddwn ni'n cadw rhestr o'r siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt ar ein Mewnrwyd, ac yn ei diweddarau'n gyson.

Bydd ein systemau ffôn awtomataidd yn rhoi dewis i alwyr o Gymru gynnal y sgwrs yn Gymraeg neu'n Saesneg. Dim ond i gwsmeriaid sydd â ffôn wedi'i gysylltu â'r gyfnewidfa ffôn ddigidol a'r rheini nad ydynt wedi atal eu rhif ffôn y bydd y gwasanaeth hwn ar gael.

Pan fyddwn ni'n gosod llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, byddwn ni'n darparu gwasanaeth Cymraeg. Caiff ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Byddwn ni'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg, ac yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael, neu'n gwahodd y cyhoedd roi gwybod i ni pa iaith maen nhw'n bwriadu ei ddefnyddio.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r bobl sy'n bwriadu mynychu cyfarfodydd cyhoeddus os bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.

Ein harfer safonol fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg – a bod adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Lle bo modd, bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cynnwys darlithoedd cyhoeddus, cyrsiau, seminarau a gweithdai a gynhelir gan, neu ar ran yr Amgueddfa.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn ni'n trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn ni'n canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a, lle bynnag y bo modd, byddwn ni'n sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn ymdrin â'r bobl sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn ni'n cynnig iddynt barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn Gymraeg.

Lle bo modd, bydd hyn yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio fideo-gynadledda ac offer tebyg hefyd.

Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn ni'n cynnal arolygon cyhoeddus, ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg.

Pryd bynnag y bo'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a fyddai'n well ganddynt ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ein harfer safonol fydd sicrhau y gwneir cyhoeddiadau dros systemau cyfarch cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau clywedol neu gyfryngau rhyngweithiol fyddwn ni'n eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd negeseuon sain yn lifftiau ein swyddfeydd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

DELWEDD GYHOEDDUS AMGUEDDFA CYMRU

Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn ni'n mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, sloganau ac eitemau gwybodaeth safonol eraill yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar unrhyw ddeunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Lle defnyddir y ddwy iaith gyda'i gilydd, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwchben y testun Saesneg, neu os ydyn nhw ochr yn ochr, bydd y Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.

Caiff Amgueddfa Cymru a phob un o'i hamgueddfeydd eu hadnabod gan eu henwau Cymraeg a Saesneg, a bydd unrhyw bapurach sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys:

- enw, cyfeiriad, hunaniaeth weledol
- sloganau corfforaethol (os oes rhai ar gael neu os creir rhai newydd)
- papur brig, taflenni ffacs, cardiau busnes, slipiau cyfarch
- bathodynau adnabod
- biliau, derbynebau, slipiau'r til a sieciau
- dewislenni, oriau agor a rhestrau digwyddiadau
- posteri, mapiau a thocynnau
- CD Roms, deunyddiau'r rhyngwyd a thempledi e-bost

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ei hunaniaeth gorfforaethol mewn fformat dwyieithog lle bynnag y caiff ei arddangos, ar gerbydau, adeiladau, eitemau sydd ar werth fel crysau-T ac ati.

Byddwn ni'n defnyddio brand uniaith Gymraeg ar gyfer rhai o'n mentrau.

Arwyddion

Lle nad oes modd defnyddio symbol, ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob un o'n harwyddion parhaol a dros dro sy'n cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Byddwn ni'n dilyn yr arfer hwn lle bynnag y caiff arwyddion eu gosod am y tro cyntaf, neu bryd bynnag y byddwn ni'n ailosod arwyddion.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwyddion, gan gynnwys arwyddion electronig.

Arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau:

- bod pob testun ar gyfer ein harddangosfeydd parhaol yn Gymraeg a Saesneg
- bod pob testun ar gyfer arddangosfeydd mawr a bach a gweithgareddau a drefnir gan Amgueddfa Cymru yn Gymraeg a Saesneg
- bod pob testun ar gyfer arddangosfeydd teithiol a benthyciadau o Amgueddfa Cymru a gaiff eu defnyddio yng Nghymru, yn Gymraeg a Saesneg
- bod pob testun ar gyfer arddangosfeydd mawr a bach a gweithgareddau a drefnir yng Nghymru i'w defnyddio gan Amgueddfa Cymru yn Gymraeg a Saesneg
- yn achos arddangosfeydd mawr a bach sy'n dod o'r tu allan i Gymru, byddwn ni'n rhoi esboniad o natur a tharddiad yr arddangosfa, ac yn darparu deunydd ategol ac addysgol perthnasol
- bod pob datblygiad o ran dehongli arddangosfeydd parhaol a dros dro, fel teithiau sain, ffilmiau dehongli, ailgreadau dramatig ac ati, a'r holl nwyddau a gaiff eu cynhyrchu gan Fentrau AOCC Cyf. i gyd-fynd ag arddangosfeydd, yn Gymraeg a Saesneg
- bydd y rhaglen o arddangosfeydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i Gymru a'i dwy iaith swyddogol.

Cyhoeddiadau

Bydd pob dogfen y bwriedir ei dosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn defnyddio system sgorio, a gaiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg a Saesneg, yn uniaith neu fel dogfennau dwyieithog.

Ein harfer safonol fydd cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r ddau fersiwn gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Os bydd Amgueddfa Cymru'n cydlynu cyhoeddiad a gaiff ei ddefnyddio yng Nghymru ar y cyd â chyrff eraill, byddwn ni'n sicrhau ei fod yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg, ac os yw'r ddau fersiwn ar wahân, bod y fersiwn Cymraeg yn cael ei gyhoeddi'r un pryd â'r Saesneg.

Byddwn ni'n ystyried cynhyrchu eitemau o ddiddordeb arbenigol ac eitemau ysgolheigaid a byrhoedlog yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y galw amdanynt a'u perthnasedd gan ddefnyddio system sgorio y cytunir arni gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fel arall, caiff fersiynau uniaith eu cynhyrchu yn dibynnu ar y farchnad darged.

Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni ddylai pris dogfen ddwyieithog fod yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith – a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

Bydd hyn yn berthnasol i'r holl ddeunyddiau a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru, ond ni fydd yn cynnwys cyhoeddiadau o ffynonellau eraill fydd ar werth trwy ein mannu gwerthu.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom, neu fel arall.

Cyfryngau/technoleg newydd

Bydd ein gwefannau'n cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ein harfer safonol fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn ni'n ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg*.

Pan fyddwn ni'n cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, ein harfer safonol fydd cynnwys y fersiynau Cymraeg yr un pryd. Lle byddwn ni'n cynnwys cyhoeddiadau uniaith Saesneg, byddwn ni'n darparu crynodeb Cymraeg.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Caiff yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Wrth i ni ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, byddwn yn ystyried yn llawn *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

Ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.

Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os bydd un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a byddwn ni'n sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn ni'n defnyddio system sgorio, y cytunir arni gan y Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd.

Pan fyddwn ni'n mewnbynnu gwybodaeth ar ffurflenni Cymraeg a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Pan fyddwn ni'n mewnbynnu gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg a Saesneg oni bai ein bod ni'n gwybod y byddai'n well gan y derbynnydd gael y wybodaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn ni'n sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Datganiadau i'r wasg

Caiff datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Caiff pob datganiad i'r wasg ar ein gwefan ei gynnwys yn Gymraeg a Saesneg.

Lle bo modd, byddwn ni'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i wneud cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Hysbysebu a chyhoedduswydd

Caiff yr holl ddeunydd cyhoedduswydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd, a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Dim ond yn Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Cyhoeddir hysbysebion teledu, sinema a radio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglennu Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

Ein harfer safonol fydd osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg, neu drosleisio hysbysebion yn Gymraeg.

Bydd llinellau ymateb a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Wrth staffio stondinau arddangos, ein harfer safonol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol yn ôl yr angen.

Hysbysiadau swyddogol: hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddsberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn Gymraeg a Saesneg, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

O ran y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.

Gellir cyhoeddi hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddsberthir ledled y DU yn Saesneg, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg. Os felly, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n ymddangos unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Staffio

Mae angen i bob un o'n gweithfannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru gael mynediad i ddigon o staff Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Caiff y gweithdrefnau canlynol eu dilyn yn unol â hynny:

Byddwn ni'n nodi'r gweithfannau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithfan neu dîm, neu fe all fod ynghlwm wrth swydd benodol. Caiff hyn ei weithredu trwy ein Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu (Atodiad A).

Byddwn ni'n monitro gofynion ieithyddol pob swydd hen a newydd yn barhaus trwy ein Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu.

Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithfannau lle mae prinder staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

Byddwn ni'n ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo staff sydd â'r gallu i siarad Cymraeg i lenwi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol

Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein derbynfeydd a'n prif switsfyrddau yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg bob amser.

Recriwtio

Wrth recriwtio staff byddwn ni'n dilyn y wybodaeth a gesglir wrth ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan *Staffio* uchod.

Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, nodir hyn yn adran gymwysterau'r disgrifiad swydd ac yn yr hysbyseb.

Lle na ellir canfod ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, byddwn ni'n annog y sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.

Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn *hanfodol*, os gellir caniatáu amser iddo ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, byddwn ni'n gosod y gallu i ddysgu'r iaith hyd at y lefel benodol o fedruswydd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, fel maen prawf perfformiad.

Os na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn *hanfodol* (neu os penodir ymgeisydd na all siarad Cymraeg ond sy'n dysgu Cymraeg), byddwn ni'n gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n gallu siarad Cymraeg o fan arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Byddwn ni'n darparu pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi.

Dysgu Cymraeg

Byddwn ni'n annog ein staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg – a byddwn ni'n cefnogi'r rhai sydd am wneud hynny.

Byddwn ni'n ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Hyfforddiant galwedigaethol

Byddwn ni'n datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n ymarferol.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei adlewyrchu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Pryd bynnag y bo modd, byddwn ni'n addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ein galluogi ni i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Gweithio mewn partneriaeth

Pan fyddwn ni'n gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn ni'n ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn ni'n cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio hefyd.

Pan fyddwn ni'n bartner mewn consortiwm, byddwn ni'n annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn ni'n gwneud hynny yn unol â'r cynllun hwn.

TREFNIADAU GWEITHREDU

Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Byddwn ni'n dethol uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i ddarparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn ni'n paratoi ac yn diweddarau'n barhaus cynllun gweithredu manwl, y cytunir arni gan y Bwrdd, gan nodi sut byddwn ni'n sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu mor fuan â phosib yn dilyn y dyddiad hwnnw. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Cyhoeddir y cynllun hwn i'n staff, a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.

Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

Caiff cyfarwyddiadau desg presennol, neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan ein staff, eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac er mwyn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Byddwn ni'n sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys gaiff eu defnyddio i helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r cynllun hwn.

Fe fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw fath o gyswllt efo'r cyhoedd yng Nghymru, na sydd wedi ei ddisgrifio'n benodol yn y cynllun hwn, mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

MONITRO

Byddwn ni'n monitro'n cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu a ddaw gyda'r cynllun hwn, ein strategaeth Prif-ffrydio a'n Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu.

Bydd ein gweithdrefnau monitro a chofnodi presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Byddwn ni'n anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais, gan amlinellu'r cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn.

ADOLYGU A DIWYGIO'R CYNLLUN

Byddwn ni'n adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'n hamgylchiadau wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni fyddwn ni'n gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

CWYNION AC AWGRYMIADAU I WELLA

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau i'w wella, at yr uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am y cynllun, yn y cyfeiriad isod:

Robin Gwyn
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NP

AMGUEDDFA CYMRU

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NP

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
CAERDYDD
CF5 6XB

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis
GWYNEDD
LL55 4TY

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru
Blaenafon
Torfaen
NP4 9XP

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
Stryd Fawr
CAERLLION
NP6 1AE

Amgueddfa Wlân Cymru
Dre-fach Felindre
LLANDYSUL
SA44 5UP

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 1TW

Canolfan Gasgliadau Cymru
Heol Crochendy
Parc Nantgarw
CF15 7QT